



PLFP Development
Grants 2023/4
Case Study

THEME: Creation &
Growth

GRANT AWARD: £3000

ECODEWI (PENINSULA FOOD MARKET) **RESILIENCE GROWTH**

Benefits provided

EcoDewi recruited and hired a part-time Resilience Growth Officer to support the work of the existing Peninsula Food Market. The role provided the opportunity to research the current market situation (sales, producers, customer base, historic annual fluctuations) and then consider and develop opportunities within the tourism sector for future sales.

Impacts and outcomes

The Resilience Growth project has successfully run for the past 3 months and has, in this initial period, achieved a number of goals:

- Carried out a research process and now have a better understanding of current challenges and issues including researching other Food Hubs and learning from their successes.
- Identified potential new partners, including collating a list of all tourism accommodation providers in the local area and created an outreach campaign to target these providers.
- Begun new website development and improving social media presence
- The formation of a new Steering Group for the Peninsula Food Market which includes local producers. This group has changed the approach to planning and running the Food Market and also brings new ideas and approaches to the table.

Highlights

“We are very pleased with the response from local tourism accommodation providers, who have already promoted the Food Market, in helping us craft new literature to share with other accommodation providers. This willingness to help and community spirited approach has been fantastic.”

Future plans

In the next stage of this project, we will be focusing more on our local customer base by carrying out surveys and developing new promotional material. We are also exploring new opportunities to make the experience easier for the customers, such as home deliveries and subscriptions.

We will also be carrying out a producer survey, looking into how we can improve their experience and explore which gaps the producers can help fill to ensure that we offer as big a range of produce as possible.



Grantiau Datblygu
PLFP 2023/24
Astudiaeth Achos

THEME: Creu & Thwf

GRANT AWARD: £3000

ECODEWI (MARCHNAD FWYD PENINSULA) **TWF GWYNTWCH**

Y buddion a ddarparwyd

Mae EcoDewi wedi recriwtio a phenodi Swyddog Twf Gwydnwch rhan amser i gefnogi gwaith y farchnad fwyd bresennol, sef Marchnad Fwyd Peninsula. Drwy'r swydd hon cafwyd cyfle i ymchwilio i sefyllfa bresennol y farchnad (gwerthiant, cynhyrchwyr, sylfaen cwsmeriaid, amrywiadau blynyddol hanesyddol) ac yna ystyried a datblygu cyfleoedd yn y sector twristiaeth ar gyfer gwerthiant yn y dyfodol.

Effeithiau a chanlyniadau

Mae'r prosiect Twf Gwydnwch wedi'i gynnal yn llwyddiannus dros y 3 mis diwethaf ac yn y cyfnod cychwynnol hwn, mae wedi cyflawni nifer o nodau:

- Gwnaed gwaith ymchwil ac erbyn hyn mae gwell dealltwriaeth o'r heriau a'r materion presennol gan gynnwys ymchwilio i Hybiau Bwyd eraill a dysgu o'u llwyddiannau.
- Nodi partneriaid newydd posibl, gan gynnwys casglu rhestr o'r holl ddarparwyr llety twristiaeth yn yr ardal leol a chreu ymgyrch allgymorth i dargedu'r darparwyr hyn.
- Dechrau datblygu gwefan newydd a sicrhau ei bod yn fwy amlwg yn y cyfryngau cymdeithasol
- Ffurio Grŵp Llywio newydd ar gyfer y Farchnad Fwyd hon sy'n cynnwys cynhyrchwyr lleol. Mae'r grŵp hwn wedi newid y dull o gynllunio a chynnal y Farchnad Fwyd ac mae hefyd wedi cynnig syniadau a dulliau newydd.

Uchafbwyntiau

"Rydym yn falch iawn o'r ymateb gan ddarparwyr llety twristiaeth lleol, sydd eisoes wedi hyrwyddo'r Farchnad Fwyd, trwy ein helpu i baratoi deunydd newydd i'w rannu â ddarparwyr llety eraill. Mae'r parodrwydd hwn i helpu a'r ysbryd cymunedol wedi bod yn wych."

Cynlluniau yn y dyfodol

Yng ngham nesaf y prosiect hwn, byddwn yn canolbwyntio mwy ar ein sylfaen cwsmeriaid lleol trwy gynnal arolygon a datblygu deunydd hyrwyddo newydd. Rydym hefyd yn archwilio cyfleoedd newydd i wneud yprofiad yn haws i'r cwsmeriaid, megis gwasanaeth danfon i'r cartref a thanysgrifiadau.

Byddwn hefyd yn cynnal arolwg o gynhyrchwyr, gan edrych ar sut y gallwn wella eu profiad ac archwilio pa fylchau y gall y cynhyrchwyr helpu i'w llenwi i sicrhau ein bod yn cynnig cymaint â phosibl o wahanol gynnyrch.